WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 624A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel rhan o'r gwaith a wnaed/sydd i'w wneud yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara-Jane Byrne, Katherine Simmons a Tim Buckle o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau i'w swyddogaeth craffu, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ymateb i heriau presennol ac yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gwella'r amgylchedd ar gyfer trosolwg a chraffu, ond nid yw'r prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau yn amserol nac yn drylwyr, ac nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn y Cabinet i gyfrif yn effeithiol 7

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w brosesau trosolwg a chraffu, ond mae angen iddo atgyfnerthu'r dull o ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella tryloywder

a manteisio ar gyfleoedd er mwyn i brosesau craffu weithio mewn ffordd wahanol 10

Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith prosesau trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei heffeithiolrwydd cyffredinol 12

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion prosesau trosolwg a chraffu effeithiol ar gyfer llywodraeth leol 13

Atodiad 2 - argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Ar y cyd â phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, roedd yr adolygiad hwn yn archwilio pa mor ‘addas i'r dyfodol’ yw eu swyddogaethau craffu. Gwnaethom ystyried sut mae cynghorau yn ymateb i heriau cyfredol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf) mewn perthynas â'u gweithgarwch craffu, yn ogystal â sut mae cynghorau yn dechrau ymgymryd â phrosesau craffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gwnaethom hefyd archwilio p'un a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol megis pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r cam posibl tuag at drefniadau gweithio'n fwy rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed gan gynghorau o ran mynd i'r afael ag argymhellion ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom hefyd olrhain y cynigion ar gyfer gwelliant sy'n berthnasol i brosesau craffu a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol yn cynnwys y rhai a roddwyd i gynghorau fel rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17 ar Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Penderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau gweithredu ar gyfer ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu er mwyn llywio ymarfer a rennir a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â'r Ddeddf;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau presennol ac yn y dyfodol;
- helpu er mwyn ymgorffori prosesau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd; a
- rhoi trosolwg o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol.

4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, gwnaethom seilio ein methodoleg adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Llywodraeth leol a ddatblygwyd gennym ac y cytunwyd arnynt gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**

5 Yn ystod mis Rhagfyr 2017 a mis Ionawr 2018, gwnaethom gynnal adolygiadau o ddogfennau, cyfweld nifer fach o swyddogion allweddol a chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr er mwyn deall eu safbwyntiau ar drefniadau craffu presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) ac yn benodol sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd uchod ac yn bwriadu ymateb iddynt.

6 Gwnaethom arsylwi sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennaeth berthnasol o'r cyfarfodydd a roddwyd i aelodau er mwyn cefnogi eu rôl graffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau.

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud gwelliannau i'w swyddogaeth craffu, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ymateb i heriau presennol a rhai'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn gwella'r amgylchedd ar gyfer trosolwg a chraffu, ond nid yw'r prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau yn amserol nac yn drylwyr, ac nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn y Cabinet i gyfrif yn effeithiol
- Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i arferion trosolwg a chraffu, ond mae angen iddo atgyfnerthu prosesau ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella tryloywder a manteisio ar gyfleoedd er mwyn i brosesau craffu weithio mewn ffordd wahanol
- Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith prosesau trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei heffeithiolrwydd cyffredinol

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnig ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor sicrhau, lle y bo'n briodol, mai aelodau'r Cabinet yn hytrach na swyddogion y cyngor a gaiff eu dwyn i gyfrif am arfer swyddogaethau gweithredol yn effeithlon yn unol â chanllawiau statudol[1]. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ystyried rôl fwriadedig pwyllgorau craffu mewn gweithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniadau a sicrhau bod y trefniadau presennol yn caniatáu digon o amser i graffu. |
| C3 | Dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chynnal prosesau craffu, ac ystyried ffyrdd gwahanol o weithio sydd fwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir. |
| C4 | Dylai'r Cyngor atgyfnerthu perchenogaeth pwyllgorau craffu o flaenraglenni gwaith, gan sicrhau bod rhesymeg glir dros ddewis pynciau. |

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen 2006, Gorffennaf 2006, Paragraff 2.1.8

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C5 | Dylai'r Cyngor atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu. |
| C6 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith ar gyfer asesu effeithiolrwydd ac effaith prosesau trosolwg a chraffu |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gwneud gwelliannau i'w swyddogaeth craffu, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i ymateb i heriau nawr ac yn y dyfodol

### Mae'r Cyngor yn gwella'r amgylchedd ar gyfer trosolwg a chraffu, ond nid yw'r prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau yn amserol nac yn drylwyr, ac nid yw pwyllgorau craffu yn dwyn y Cabinet i gyfrif yn effeithiol

9 Mae'r Cyngor yn diffinio rôl ei swyddogaeth trosolwg a chraffu ar ei wefan fel a ganlyn:

- craffu cyn gwneud penderfyniadau (ystyried penderfyniadau a wneir gan y Cabinet);
- perfformiad (monitro perfformiad gwasanaethau);
- polisi a phartneriaeth (ystyried effaith polisïau a dwyn partneriaid y Cyngor i gyfrif); a
- chraffu ar ôl gwneud penderfyniadau (ystyried effaith penderfyniad ar ôl iddynt gael eu gwneud).[2]

10 Gwnaethom ganfod mai prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau yw'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch craffu yn y Cyngor ac, fel y gwnaethom adrodd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014, mae gweithgarwch y pwyllgor trosolwg a chraffu yn dal i gyd-fynd â rhaglenni gwaith y Cabinet a Bwrdd y Cabinet yn bennaf.[3] Yn ystod ein hadolygiad, dywedodd cynghorwyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau agos rhwng gweithgarwch y Cabinet a gweithgarwch craffu. O ganlyniad i drefniadau craffu cyn gwneud penderfyniadau y Cyngor, caiff pwyllgorau craffu gyfle rheolaidd i ystyried materion sy'n berthnasol i drefniadau gwella a llywodraethu'r Cyngor.

11 Fel arfer, mae'r amserlen i bwyllgorau craffu ystyried eitemau craffu cyn gwneud penderfyniadau yn gymharol fyr. Mae aelodau'r Cabinet yn penderfynu'n aml ar yr eitemau hyn yng nghyfarfod bwrdd y Cabinet a drefnir yn union ar ôl cyfarfod y pwyllgor craffu perthnasol ar yr un diwrnod. Nid yw'r dull hwn o graffu cyn gwneud

[2] Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, https://www.npt.gov.uk/5854?lang=cy-gb

[3] Archwilydd Cyffredinol, **Adroddiad Gwella Blynyddol yn Ymgorffori'r Adroddiad Asesu Corfforaethol 2014 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,** Swyddfa Archwilio Cymru, Tachwedd 2014

penderfyniadau yn caniatáu llawer o amser i'r pwyllgorau craffu gynllunio eu gweithgarwch yn effeithiol, cymryd perchenogaeth o amseriad na dull y gweithgarwch craffu, na phenderfynu a oes angen i dystiolaeth ychwanegol gael ei chasglu er mwyn llywio eu hystyriaethau. Mae hyn hefyd yn cyfyngu ar allu pwyllgorau craffu i geisio amrywiaeth o safbwyntiau er mwyn llywio gweithgarwch craffu. Dylai'r Cyngor ystyried a yw rôl pwyllgorau craffu mewn prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau yn ddigon clir ac ystyrlon. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor hefyd ystyried a yw ei drefniant presennol ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniadau yn galluogi pwyllgorau craffu i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol. Er enghraifft, gall ganfod y byddai ystyried llai o eitemau yn fanylach, a thros fwy o amser, yn ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau swyddogaeth craffu cyfyngedig.

12 Mae pwyllgorau craffu yn ystyried gwybodaeth am berfformiad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r Cyngor yn rheolaidd a cheir cyfle i ddatblygu rhagor o brosesau craffu ar berfformiad fel rhan o'r system rheoli perfformiad newydd a gyflwynir.

13 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014, gwnaethom nodi "er bod Aelodau'r Cabinet yng Nghastell-nedd Port Talbot yn mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y pwyllgorau craffu, nid ydynt yn cael eu holi am bolisïau, penderfyniadau na pherfformiad gwasanaethau fel mater o drefn ac, yn lle hynny, maent yn mynd i gyfarfodydd i'w harsylwi gan amlaf. Nid yw hwn yn arfer da." Nid aed i'r afael â'r sefyllfa hon eto. Ar hyn o bryd, nid yw aelodau'r Cabinet yn cael eu dwyn i gyfrif gan bwyllgorau craffu. Gwnaethom ganfod mai swyddogion, yn hytrach nag aelodau'r Cabinet, sy'n mynd i bwyllgorau craffu yn gyffredinol i gyflwyno adroddiadau, ateb cwestiynau, a chael eu dwyn i gyfrif. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi yn y pen draw mai'r swyddog gweithredol etholedig fydd yn gorfod ateb cwestiynau am ei bolisïau a'i benderfyniadau. Dylai cyfraniadau swyddogion gael eu cyfyngu cymaint â phosibl i gwestiynau ynghylch ffaith ac esboniad sy'n ymwneud â pholisïau a phenderfyniadau... Dylai pwyllgorau craffu'r Cyngor sicrhau, lle y bo'n briodol, mai aelodau'r Cabinet yn hytrach na swyddogion y cyngor a gaiff eu dwyn i gyfrif am arfer swyddogaethau gweithredol yn effeithiol yn unol â chanllawiau statudol.

14 Rydym yn deall bod aelodau'r Cabinet yn cyflwyno adroddiadau yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor a bod uwch aelodau'r Cabinet yn awyddus i holl aelodau'r Cabinet ddechrau cymryd mwy o berchenogaeth o'u portffolios mewn cyfarfodydd cyngor yn fwy cyffredinol, yn cynnwys pwyllgorau craffu. Nododd aelodau'r Cabinet ac aelodau craffu bod diwylliant mwy cefnogol o graffu yn y Cyngor.

15 Er mwyn cael dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae prosesau craffu yn gweithredu ynddynt, gwnaethom hefyd edrych ar yr hyfforddiant sydd ar gael i aelodau craffu. Mae'r Cyngor wedi rhoi hyfforddiant i aelodau ar weithdrefnau pwyllgorau a phrosesau craffu. Cyflwynodd swyddog craffu sesiwn sefydlu yn union cyn y cyfarfod cyntaf a drefnwyd o bob pwyllgor craffu. Fodd bynnag, er gwaethaf yr hyfforddiant a ddarparwyd, roedd rhai aelodau wedi drysu ynghylch rôl aelodau'r Cabinet yn y broses graffu.

16 Mae'r Cyngor wedi rhoi rhywfaint o hyfforddiant er mwyn paratoi aelodau craffu ar gyfer y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau sefydlu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), a seminar/sesiwn gweithdy gydag aelodau ar Gynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot. Tynnodd rhai aelodau sylw at yr angen am ragor o hyfforddiant, er enghraifft mewn perthynas â sgiliau cadeirio a chymryd rhan mewn proses graffu 'ar ôl gwneud penderfyniadau'. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r anghenion hyfforddiant hyn. Fodd bynnag, mae cyfle i'r Cyngor ystyried a fyddai hyfforddiant mewn meysydd eraill yn galluogi cynghorwyr i fod mewn sefyllfa well i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys arfarniadau o opsiynau, dadansoddiad ariannol, craffu ar drefniadau rhanbarthol, cydweithredol a masnachol, ac ymgysylltu ag aelodau ward a rhanddeiliaid mewn gwaith craffu.

17 Mae rhai aelodau craffu wedi nodi camau gweithredu y maent yn credu allai helpu i'w paratoi'n well i ymgymryd â gweithgarwch craffu, fel arsylwi pwyllgorau trosolwg a chraffu mewn cynghorau eraill. Mae cyfle i gynghorwyr ddysgu mwy am yr arferion craffu gwahanol a ddefnyddir mewn mannau eraill er mwyn eu helpu i fyfyrio ar ddulliau amgen posibl wrth gynllunio gweithgarwch craffu yn y dyfodol yn y Cyngor.

18 Mae'r Cyngor wedi datblygu rôl aelod sy'n Hyrwyddwr Craffu. Mae'r rôl yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog sy'n gyfrifol ymgysylltu ag aelodau etholedig eraill a chynorthwyo i eirioli a hyrwyddo arfer gorau mewn perthynas â threfniadau craffu cadarn fel rhan o brosesau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.[4] Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion. Dywedodd Cadeiryddion Craffu wrthym fod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, gan alluogi cadeiryddion i rannu dealltwriaeth, arfer da neu anghenion hyfforddiant.

19 Adolygodd y Cyngor y cymorth swyddogion penodol a roddir i bwyllgorau craffu yn 2017. Caiff y swyddogaeth trosolwg a chraffu ei chefnogi ar hyn o bryd gan uwch swyddog craffu a datblygu aelodau, dau swyddog gwasanaethau democrataidd a phrentis modern. Gwnaed trefniadau i atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael i bwyllgorau drwy benodi aelodau newydd o staff. Roedd angen hyn er mwyn disodli unigolion sydd wedi newid swyddi, ond cytunwyd hefyd y dylai'r cynorthwyydd gwasanaethau democrataidd ymuno â'r tîm craffu er mwyn rhoi cymorth ychwanegol. Gwnaed trefniadau hefyd er mwyn rhoi hyfforddiant achrededig i aelodau newydd o staff er mwyn gwella'r cymorth a roddir ganddynt i aelodau craffu. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad pellach o gymorth swyddogion ar gyfer pwyllgorau trosolwg a chraffu yng ngwanwyn 2017 gyda'r bwriad o nodi unrhyw anghenion cymorth eraill nad ydynt yn cael eu diwallu. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried anghenion cymorth presennol aelodau craffu, ond hefyd sut y gallai'r rhain newid o ystyried heriau presennol ac yn y dyfodol. Gallai hyn

[4] Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, **Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd,** 1 Chwefror 2018

gynnwys sicrhau bod gan swyddogion y sgiliau a'r arbenigedd priodol i helpu aelodau craffu.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i arferion trosolwg a chraffu, ond mae angen atgyfnerthu prosesau ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella tryloywder a manteisio ar gyfleoedd er mwyn i brosesau craffu weithio mewn ffordd wahanol

20 Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd pwyllgor craffu yn ystod ein hadolygiad. Gwelsom eu bod wedi'u cynnal yn dda gyda nifer o gwestiynau heriol a pherthnasol yn cael eu gofyn gan aelodau. Clywsom hefyd fod aelodau o'r farn nad yw cyfarfodydd pwyllgor craffu yn gyffredinol 'yn wleidyddol', a bod diwylliant cyfarfodydd pwyllgor yn gynhyrchiol.

21 O'n harsylwadau a'n grwpiau ffocws, mae'n ymddangos bod sesiynau cyn briffio pwyllgorau craffu yn helpu i sicrhau bod mwy o ffocws i gyfarfodydd pwyllgor. Mae'r sesiynau hyn yn helpu pwyllgorau craffu i ddatblygu llinellau ymholi allweddol a dull mwy cydlynus o holi. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod tystiolaeth gyfyngedig bod pwyllgorau yn myfyrio ar y dull gorau o gynnal gweithgarwch craffu wrth ystyried pynciau. Rydym yn ymwybodol bod pwyllgorau craffu weithiau yn sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ac ymchwiliadau craffu. Fodd bynnag, fel mewn sawl cyngor arall yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o weithgarwch trosolwg a chraffu yn digwydd mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol lle caiff adroddiadau swyddogion eu hystyried.

22 Wrth gynnal prosesau craffu cyn gwneud penderfyniadau o adroddiadau Bwrdd y Cabinet, mae pwyllgorau craffu yn dewis pa eitemau o agenda Bwrdd y Cabinet y byddant yn craffu arnynt. Fodd bynnag, ni chaiff yr eitemau craffu cyn gwneud penderfyniadau a ddewiswyd eu nodi yn agenda'r pwyllgor craffu felly byddai'n anodd i'r cyhoedd wybod pa eitemau ar agenda Bwrdd y Cabinet y creffir arnynt. Nid yw'r trefniant hwn yn dryloyw. Os na roddir rhybudd ymlaen llaw i'r cyhoedd o ran pa eitemau y creffir arnynt mewn gwirionedd, nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn gwneud trefniadau effeithiol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn "galluogi'r holl bersonau sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol i ddwyn i sylw'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol eu safbwyntiau ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor".[5]

23 Gwnaeth swyddogion ac aelodau gydnabod bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn faes o wendid yn nhrefniadau a gweithgarwch trosolwg a chraffu'r Cyngor. Anaml y bydd pwyllgorau craffu yn ceisio safbwyntiau'r cyhoedd neu ddefnyddwyr gwasanaeth fel rhan o'u gwaith. Ni chaiff gwybodaeth ymgysylltu/ymgynghori gorfforaethol ei defnyddio mewn ffordd systemataidd gan bwyllgorau craffu i nodi pynciau craffu posibl, nac fel tystiolaeth i lywio canfyddiadau'r pwyllgor craffu. Gan mai 'cynhwysiant' yw un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant

[5] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, 62 (2)

Cenedlaethau'r Dyfodol, efallai y bydd angen i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor ystyried a yw eu dull o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â phrosesau craffu yn briodol o hyd wrth iddynt graffu ar y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

24 Lle bydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu yn penderfynu sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen neu baneli er mwyn adolygu materion penodol, mae prosesau clir ar waith er mwyn herio'r dewis pwnc a chynllunio'r ymarfer craffu. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn llunio papur cwmpasu ac yn cynnal cyfarfod cynllunio er mwyn herio'r dewis pwnc ac ystyried y prif nodau o'r prosiect, a'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw. Defnyddir ffurflen templed cwmpasu. Mae hyn yn cynnwys sut y bydd y gweithgarwch craffu yn cyfrannu at gyflawni amcanion/blaenoriaethau corfforaethol/cymunedol, rhestr gychwynnol o swyddogion allweddol, rhanddeiliaid neu asiantaethau eraill i'w cynnwys, ac amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymarfer. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch craffu yn digwydd mewn cyfarfodydd pwyllgor craffu ar hyn o bryd, mae'r lefel hon o gynllunio yn gyfyngedig i gyfran fach o weithgarwch craffu.

25 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyfyngu ar nifer y cwestiynau y gall aelodau eu gofyn yn ystod unrhyw bwyllgorau, ac am ba hyd y gall pob aelod holi tystion. Gallai hyn amharu ar brosesau craffu effeithiol drwy atal trafodaeth. Fodd bynnag, awgrymodd ein harsylwadau o bwyllgorau craffu nad oedd cymhwyso'r cyfyngiad hwn yn arfer cyffredin ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael ei weithredu yn ôl disgresiwn y Cadeirydd Craffu. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cydnabod bod angen diwygio'r Cyfansoddiad, ac mae wedi penderfynu gofyn i'r Swyddog Monitro ystyired diwygio'r cyfansoddiad er mwyn ystyried y broses graffu.

26 Mae Cabinet y Cyngor wedi datblygu blaenraglenni gwaith ar gyfer Byrddau'r Cabinet ac ar gyfer y Cabinet. Bydd y blaenraglenni hyn yn helpu aelodau craffu i nodi mewn ffordd fwy amserol yr eitemau arfaethedig yr hoffent ganolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, nid yw'r blaenraglenni gwaith ar gyfer y pwyllgor craffu wedi'u datblygu'n llawn. Nid ydynt yn cynnwys y rhesymeg ar gyfer eitemau, eu diben na'r canlyniad a ddisgwylir o'r gweithgarwch craffu. Fodd bynnag, mae aelodau yn dechrau bod yn fwy gofalus mewn perthynas â'r eitemau y maent yn dewis craffu arnynt o agendâu Byrddau Cabinet. Maent yn awgrymu y dylid ychwanegu rhagor o eitemau at flaenraglenni gwaith a nodwyd ganddynt eu hunain, gan ddangos gwell perchenogaeth o'u gweithgarwch.

27 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod craffu ar gyrff allanol yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach, er bod y Cyngor yn cymryd rhan yn y trefniadau craffu ar y cyd a sefydlwyd er mwyn edrych ar effeithiolrwydd 'Ein Rhanbarth ar Waith' (ERW) ledled y rhanbarth.[6]

28 Fel rhan o'n hadolygiad, gwnaethom ystyried sut mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Pwyllgor

[6] Ein Rhanbarth ar Waith (ERW) yw un o'r pedwar consortia gwella ysgolion rhanbarthol yng Nghymru.

Craffu Polisi ac Adnoddau yn cyflawni'r swyddogaeth ar gyfer craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot. Gwnaethant gynnal eu cyfarfodydd cyntaf ym mis Ionawr 2018. Mae'n rhy gynnar yn natblygiad prosesau craffu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ni roi sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn y Cyngor.

## Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso effaith prosesau trosolwg a chraffu ac ni all ddangos ei heffeithiolrwydd cyffredinol

29 Fel rhan o'n hadolygiad, gwnaethom ofyn i swyddogion ac aelodau nodi enghreifftiau lle roedd gweithgarwch craffu wedi cael effaith neu ychwanegu at werth. Amlygodd swyddogion ac aelodau rai enghreifftiau fel ymgynghori ar bennu cyllideb, a grwpiau gorchwyl a gorffen yn herio trefniadau presennol ac yn gwneud argymhellion ynghylch diogelwch cymunedol a thwristiaeth, a dderbyniwyd gan y Cabinet. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 21 uchod, mae'r rhan helaeth o weithgarwch trosolwg a chraffu yn y Cyngor yn digwydd yn ystod cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol. Canfu ein hadolygiad o gofnodion pwyllgorau craffu, wrth i nifer o eitemau gael eu cwblhau, bod adroddiadau wedi nodi nad oedd unrhyw ganlyniad amlwg yn sgil y gweithgarwch craffu. Hefyd, prin oedd y dystiolaeth a welwyd fod pwyllgorau craffu yn rhoi her adeiladol i aelodau'r Cabinet yn ystod cyfarfodydd pwyllgor.

30 Nid yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd cyffredinol ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd, ac nid yw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi llunio adroddiadau blynyddol yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dangos parodrwydd i wella effeithiolrwydd ei drefniadau trosolwg a chraffu. Mae hyn yn cynnwys manteisio ar gymorth neu arweiniad allanol, fel myfyrio ar y gwaith a wnaed gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE), er mwyn gwella arfer craffu. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu dangosyddion perfformiad lleol yn ymwneud â throsolwg a chraffu, yn cynnwys y nifer o argymhellion a wnaed gan bwyllgorau ac y cytunwyd arnynt gan y Cabinet. Felly, mae gan y Cyngor gyfle i fyfyrio ar y gwaith y mae'n ei wneud eisoes er mwyn gwella arfer trosolwg a chraffu er mwyn datblygu dull mwy cynhwysfawr o werthuso effeithiolrwydd ac effaith gweithgarwch trosolwg a chraffu.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn llywio gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwell Gwasanaethau'** | **Yr amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth craffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion penodedig sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau Craffu.<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth craffu yn darparu atebion i broblemau cydnabyddedig sy'n hyfyw ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae craffu da yn anelu at ei gyflawni?** | **Sut olwg fyddai arno? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Penderfyniadau gwell'** | **Yr amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cefnogaeth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth craffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth craffu ei harwain gan Aelodau ac mae'n cymryd 'perchenogaeth' o'i rhaglen waith gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso rhwng blaenoriaethu pryderon y gymuned a materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae gan randdeiliaid y gallu i gyfrannu at y broses o ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddi.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau anweithredol yn cyflwyno dull o gynnal cydbwysedd i broses o wneud penderfyniadau Gweithredol yn seiliedig ar dystiolaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio o fewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaethau democrataidd am y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu nawr ac yn y dyfodol.** | **Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth craffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth craffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth craffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth craffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi 'llais' pobl a chymunedau lleol ledled yr ardal i gael ei glywed fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth ar Wella'r Broses Graffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion o ran cyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu gwaith craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru